

## **Eisteddfod yr Urdd – 2018**

### **Cystadleuaeth Defod y Fedal Ddrama Bl.10 a dan 25oed (415)**

---

BEIRNIADAETH LUNED AARON AC ALED JONES WILLIAMS

#### *EIRA WEN*

Cyflwynir sefyllfa theatrig addawol gan EIRA WEN wrth i ni gael ein cyflwyno i'r 'Teipiau' o gymeriadau megis Unig, Perffaith, Amherffaith, Stressed a Twpsyn. Thema glir sy'n cael ei chyfleu drwy gydol y ddrama yw'r pwysau a roddir ar bobl ifanc i gyrraedd perffeithrwydd ym myd addysg, a llwyddir i roi cipolwg ar straen arholiadau, yn ogystal ag awydd yr ifanc i ennyn poblogrwydd gan eu cyfoedion. Yn anffodus, mae ôl brys yn britho'r gwaith. Nid yw'n hollol eglur pwy yw'r prif gymeriad, ac anodd yw dilyn y digwydd ar brydiau. Wedi dweud hynny, ceir yma gyffyrddiadau dramatig digon effeithiol, ynghyd â disgrifiadau sy'n dangos gwreiddioldeb.